OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2013 Rhif 2895 (Cy. 277)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M48 a Chefnffordd yr A466 (Cylchfan Newhouse i Gylchfan Highbeech, Cas-gwent, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2013

*Gwnaed* *11 Tachwedd 2013*

*Yn dod i rym* *18 Tachwedd 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain i Abergwaun (yr M48) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd") a Chefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A466) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r draffordd a'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984[(1)] a phob pŵer galluogi arall[(2)], yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Tachwedd 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M48 a Chefnffordd yr A466 (Cylchfan Newhouse i Gylchfan Highbeech, Cas-gwent, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2013.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 18 Tachwedd 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the* motorway") yw'r darnau o draffordd yr M48 yn Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o Gefnffordd yr A466 yn Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr, ar y darnau o'r draffordd a'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darnau o'r draffordd a'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r draffordd a'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 11 Tachwedd 2013

***R MORGAN***
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### HYD A LLED Y GWAHARDDIAD DROS DRO AR GERBYDAU

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin Traffordd yr M48 wrth Gyffordd 2, Cylchfan Newhouse.

## ATODLEN 2

### HYD A LLED Y TERFYNAU CYFLYMDER 40 A 10MYA DROS DRO A'R GWAHARDDIAD AR ODDIWEDDYD

i) Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A466 sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Newhouse i'w chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Highbeech.

ii)Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r dwyrain Traffordd yr M48 wrth Gyffordd 2, Cylchfan Newhouse.

iii) Y darn cyfan o gerbytffordd gylchredol Traffordd yr M48 wrth Gyffordd 2, Cylchfan Newhouse.